# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 07-06

**Dyddiad y cyfarfod: 27 Medi 2006**
**Amser y cyfarfod: 9:00 – 11:50**
**Lleoliad y cyfarfod : Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnweydd |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys M?td> |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan (Prif Weinidog) | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Phillip Bird | Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Polisi'r UE |
| Cathy Presland | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Damien O'Brien | Yr Is-adran Cynllunio a Strategaeth |
| Neil Thomas | Pennaeth yr Is-adran Ewropeaidd a Rhyngwladol |

**Eraill yn Bresennol**

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) ar yr agenda |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | Pob un |
| Rose D'Sa | Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop | 1, 2, 3, 4, 7 |
| Ian Thomson | Cyfarwyddwr Canolfan Wybodaeth Europe Direct De Cymru | 5 |
| Dr Kevin Higgins | Cyfarwyddwr Cyngor Prydeinig Cymru | 6 |
| Martin Davidson | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Cyngor Prydeinig | 6 |
| Andy Egan | Arweinydd T? Partneriaeth Ysgolion Byd-eang, yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol | 6 |
| Sue Ling | Is-adran Gwasanaethau Ewropeaidd, y Cyngor Prydeinig | 6 |
| Andrew Templeton | Cyngor Prydeinig Cymru | 6 |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc |

Gan fod Sandy Mewies AC yn absennol, penododd y Pwyllgor Jeff Cuthbert AC fel Cadeirydd dros dro, yn unol ?heol Sefydlog 8.20.

**Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies AC, Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE a Jill Evans ASE.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**
**Papur: EUR(2) 06-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf**
**Papur: EUR(2) 07-06 – Camau heb eu Cymryd**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf fel cofnod cywir.

2.2 Rhestr o’r camau heb eu cymryd: nid oedd unrhyw sylwadau.

2.3 Yn dilyn derbyn llythyr gan Jenny Randerson AC, Cadeirydd y Pwyllgor ar Reolau Sefydlog, yn gofyn am amlinelliad o beth fydd swyddogaethau’r Pwyllgor ar ?007 ym marn yr Aelodau, penderfynodd y Pwyllgor drafod y mater yn eu cyfarfod nesaf ar 25 Hydref.

**Eitem 3: Adroddiad y Prif Weinidog**
**Papur: EUR(2) 07-06 (p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad.

**Camau i’w Cymryd:**

- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu nodyn ar y newidiadau a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd i’r Fframwaith Cymuned ar Ymchwil a Datblygu.
- Cytunodd Nick Bourne AC i roi nodyn i’r Prif Weinidog yn amlinellu ei bryderon penodol ynghylch Polisi Modiwleiddio Senedd Ewrop a’r ddeddfwriaeth REACH a oedd ar y gweill.
- Cytunodd y Prif Weinidog y byddai’r ystadegau perthnasol ar gyfer Brasil, Tsieina ac India yn cael eu cynnwys mewn cymariaethau o ran twf yn y dyfodol.

**Eitem 4: Cynllun Gweithredol ar gyfer Arian Cydgyfeirio (WEFO)**
**Papur: EUR(2) 07-06 (p.2)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Weithredol ar gyfer Arian Cydgyfeirio’r Undeb Ewropeaid 2007 – 2013.

**Camau i’w Cymryd:**

- Cytunodd y Prif Weinidog i ystyried p’un ai cyflwyno’r Rhaglen Weithredol arfaethedig ar gyfer Arian Cydgyfeirio ai peidio yn ystod sesiwn Cyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol, i’w chymeradwyo yn dilyn yr ymgynghoriad.
- Gofynnwyd i’r Clerc ddrafftio ymateb i’r ymgynghoriad sy’n adlewyrchu barn y Pwyllgor, ar sail y trawsgrifiad.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi: Canolfan Wybodaeth Europe Direct De Cymru**
**Papur: EUR(2) 07-06 (p.3)**

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ganolfan Wybodaeth Europe Direct De Cymru ar gyfer yr adolygiad o Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi: Y Cyngor Prydeinig**

**Papur: EUR(2) 07-06 (p.4)**

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cyngor Prydeinig ar gyfer yr adolygiad o Addysg Dinasyddiaeth Ewropeaidd a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

## Eitem 7: Sybsidiaredd: yr ail brawf, ystyried y gwahoddiad

7.1 Cytunodd y Pwyllgor i gymryd rhan yn yr ail brawf; ond i ddelio ?146;r mater hwn yn anffurfiol.

## Camau i'w Cymryd:

- Bydd y Pwyllgor yn ffurfio gweithgor i ystyried y materion.
- Bydd y Clerc yn trefnu dyddiad addas i'r gweithgor.

## Eitem 8: Y diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

8.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Bwyllgor y Rhanbarthau.

Gwasanaeth y Pwyllgorau